Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Dynodiadau Cadwraeth Natur

## Hysbysiad Hwylus Ebrill 2012

## Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori, sef 'Cynnal Cymru Fyw - Papur Gwyrdd ar ffordd newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru'. Mae'r Papur Gwyrdd yn trafod rôl gymharol dynodiadau yn y ffordd newydd arfaethedig o reoli adnoddau naturiol. Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn rhoi cyflwyniad i'r dynodiadau cadwraeth natur statudol presennol yng Nghymru.

## Pa ddeddfwriaeth sy'n rheoli dynodiadau cadwraeth natur yng Nghymru?

Mae pedwar o gyfarwyddebau'r UE[1] yn gorfodi Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig i ddiogelu anifeiliaid a chynefinoedd sy'n bwysig o ran cadwraeth natur, ffynonellau ecosystem dŵr daearol, ac i sicrhau y caiff yr amgylchedd morol ei reoli mewn modd cynaliadwy. Mae ymrwymiadau rhyngwladol, yn arbennig y rhai o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r Confensiwn ar Wlypdiroedd o Bwys Rhyngwladol (a elwir hefyd yn y confensiwn Ramsar) yn cyflwyno dyletswyddau pellach ar y Llywodraeth i atal colli bioamrywiaeth ac i warchod safleoedd gwlypdir sy'n bwysig o ran cadwraeth natur.[2]

Mae'r ymrwymiadau rhyngwladol hyn yn darparu fframwaith cyson ar draws yr arena Ewropeaidd a/neu ryngwladol ar gyfer cadwraeth a rheoli rhywogaethau a chynefinoedd pwysig. Maent yn amlinellu **amcanion bras ar gyfer dynodi a diogelu safleoedd sy'n cynnwys y bywyd gwyllt pwysig hwn ac** mae gan Aelod-wladwriaethau rwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni'r amcanion hyn ar gyfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd a restrir yn y pedair Cyfarwyddeb. Mae'r **modd y caiff hyn ei gyflawni yn cael ei bennu gan bolisi cenedlaethol pob Aelod-wladwriaeth**[3]. Yn y DU, mae sawl darn o ddeddfwriaeth yn cyflawni'r rôl hon, sef:

- *Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949;*
- *Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;*
- *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;*
- *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006;* a
- *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.*[4]

[1] *Cyfarwyddeb 2009/147/EC ar Gadwraeth Adar Gwyllt; Cyfarwyddeb 94/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt; Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, 23 Hydref 2000, Sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi dŵr; a Chyfarwyddeb 2008/56/EC ar sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi amgylcheddol morol.*
[2] Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Protected Sites Designations Directory*** [fel ar 20 Mawrth 2012].
[3] Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***EC Birds Directive*** [fel ar 22 Mawrth 2012].
[4] NatureNet, ***The History of Conservation Legislation in the UK*** [fel ar 20 Mawrth 2012].

# Pa ddynodiadau cadwraeth natur sy'n berthnasol yng Nghymru?

## Dynodiadau rhyngwladol

Mae pedwar dynodiad cadwraeth natur statudol yn cyflawni amcanion rhyngwladol:

- **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** – Cânt eu dynodi o dan Gyfarwyddeb Adar yr UE; dyma'r ardaloedd pwysicaf yn Ewrop ar gyfer adar prin a mudol;
- **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** – Cânt eu dynodi o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE; dyma'r ardaloedd pwysicaf yn Ewrop o ran cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar a restrir yn y Gyfarwyddeb fel rhai sydd o bwys Ewropeaidd;
- **Safleoedd Ramsar** – Cânt eu dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar; dyma'r ardaloedd pwysicaf ar gyfer ecosystemau adar gwyllt a/neu wlyptir; a
- **Gwarchodfeydd Biosffer** – Cânt eu dynodi gan UNESCO[5]; mae'r rhain yn ecosystemau daearol ac arfordirol sy'n hyrwyddo atebion i gysoni cadwraeth bioamrywiaeth gyda'r defnydd cynaliadwy ohono.

Gall Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fod yn berthnasol i ardaloedd daearol yn ogystal ag ardaloedd morol sy'n eistedd y tu mewn i'r ffin 12 môr-filltir o amgylch dyfroedd y DU, a thu allan iddo. Darperir pwerau dynodi ar gyfer tir a dyfroedd tiriogaethol yn ***Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994*** a darperir pwerau dynodi ar gyfer safleoedd y tu allan i ddyfroedd tiriogaethol yn ***Rheoliadau Cadwraeth Morol oddi ar yr Arfordir (Cynefinoedd Naturiol etc) 2007***[6].

Mae rhwydwaith **Natura 2000** yn cwmpasu'r holl safleoedd Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig ledled Ewrop er mwyn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion [7].

## Dynodiadau cenedlaethol

Caiff dynodiadau cenedlaethol statudol eu rhannu'n ddau gategori: rhai sy'n gwarchod tirweddau; a rhai sy'n gwarchod cynefinoedd a bywyd gwyllt.[8]

Dynodiadau tirwedd:

- **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol** (AHNE) - safleoedd o harddwch naturiol sy'n cynnwys bywyd gwyllt, nodweddion daearyddol a/neu dreftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â thirwedd a golygfeydd; a
- **Pharciau cenedlaethol** - safleoedd sy'n bwysig o ran tirwedd ac sy'n hyrwyddo mwynhad y cyhoedd.[9]

Dynodiadau bywyd gwyllt a chynefinoedd:

- **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SoDdGA) – ardaloedd enghraifft orau yn y DU ar gyfer

[5] Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig.
[6] NatureNet, ***The History of Conservation Legislation in the UK*** [fel ar 20 Mawrth 2012].
[7] Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***European Legislation*** [fel ar 22 Mawrth 2012].
[8] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Safleoedd a Thirweddau Arbennig*** [fel ar 20 Mawrth 2012].
[9] Gellir cael rhagor o wybodaeth am y dynodiadau tirwedd hyn yn nogfen Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru* [copi caled].

rhywogaethau, cynefinoedd, daeareg neu nodweddion daearyddol;

- **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol** – ecosystemau daearol ac arfordirol naturiol a lled naturiol sydd o bwys cenedlaethol;
- **Gwarchodfeydd Natur Lleol** – ecosystemau daearol ac arfordirol naturiol a lled naturiol sydd o bwys lleol; a
- **Pharthau Cadwraeth Morol** – bywyd gwyllt, cynefinoedd, daeareg a geomorffoleg sydd o bwys cenedlaethol.

Caiff Gwarchodfeydd Natur (lleol a chenedlaethol) eu dynodi o dan *Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*, gyda darpariaeth bellach wedi'i chynnwys yn y *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*. Caiff Parthau Cadwraeth Morol eu dynodi o dan *Ddeddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009.*[10]

Mae safleoedd a ddynodwyd yn SoDdGA yn dod o dan y fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan y *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*, gyda darpariaeth bellach wedi'i chynnwys yn y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*. Gall y safleoedd hyn yn ymestyn i ddyfroedd rhynglanw ac, ynghyd â Pharthau Cadwraeth Morol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar, maent yn cyfrannu at rwydwaith o safleoedd ar draws y DU a elwir yn **Ardaloedd Morol Gwarchodedig**.

## Faint o dir a môr sy'n destun dynodiadau yng Nghymru?

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn nodi bod tua **30 y cant o dir a môr Cymru** yn destun o leiaf un dynodiad cadwraeth natur[11].

O blith y safleodd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, mae gan Gymru **92 Ardal Cadwraeth Arbennig, 20 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 10 safle Ramsar** ac un **Warchodfa Biosffer**, sy'n cynnwys aber Dyfi a'r ardaloedd cyfagos.

O blith y safleoedd a ddynodir yn genedlaethol, mae gan Gymru **dri Pharc Cenedlaethol,** sy'n cynnwys tua 20 y cant o dir Cymru, **pum AHNE** ac **134 Gwarchodfa Natur**: 72 Gwarchodfa Natur Cenedlaethol a 62 Gwarchodfa Natur Lleol. Mae tua **12 y cant o dir Cymru wedi'i ddynodi'n SoDdGA,** sy'n cynnwys dros 1000 o safleoedd unigol.[12]

## Sut y caiff safleoedd wedi'u dynodi eu gwarchod yng Nghymru?

**Nid yw** safleoedd sydd **wedi'u dynodi o dan ofynion rhyngwladol ac Ewropeaidd yn cael eu gwarchod yn awtomatig o dan ddeddfwriaeth ddomestig**, gan mai Aelod-wladwriaethau sy'n gyfrifol am benderfynu sut i weithredu'r gofynion hyn yn genedlaethol. Er mwyn sicrhau bod safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol yn derbyn yr un lefel o ddiogelwch â safleoedd cenedlaethol, fel arfer cânt eu **dynodi yn safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol hefyd.**

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, fel arfer caiff safleoedd rhyngwladol eu **hategu gan ddynodiad SoDdGA**. Mae hyn yn golygu bod yr holl safleoedd Ramsar, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Gwarchodfeydd Biosffer yng Nghymru hefyd wedi'u dynodi yn SoDdGA.

[10] Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Protected sites designations directory*** [fel ar 22 Mawrth 2012].
[11] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Safleoedd a Thirweddau Arbennig*** [fel ar 22 Mawrth 2012].
[12] *ibid*

**Mae Dynodiadau Cenedlaethol yn darparu gwahanol lefelau o warchodaeth.** Gall y rhai sydd â lefelau is o warchodaeth cadwraeth natur, fel Parciau Cenedlaethol, AHNE a Gwarchodfeydd Natur, hefyd gael eu dynodi (yn llawn neu'n rhannol) yn SoDdGA. Mae hyn yn rhoi gwarchodaeth gyfreithiol ychwanegol i'r ardaloedd hyn, a ddarperir gan y dynodiad SoDdGA.

## Beth yw SoDdGA a sut y cânt eu rheoli?

**SoDdGA yw'r dynodiad mwyaf cyffredin a ddefnyddir yng Nghymru**. Gall SoDdGA amrywio'n fawr o ran eu nodweddion hysbysadwy [13], eu maint a'u perchnogaeth. Gall safleoedd fod yn safleoedd daearol, yn safleoedd dŵr croyw neu'n safleoedd arfordirol [14] a gallant fod yn eiddo i dirfeddianwyr unigol, sefydliadau cadwraeth, cyrff cyhoeddus neu'r Llywodraeth.

Mae **Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gyfrifol am adnabod a dynodi safleoedd addas yn SoDdGA** ac mae'n **gyfrifol yn y pen draw am sicrhau rheolaeth briodol o bob SoDdGA** yng Nghymru. Rhaid i bob SoDdGA gael **dogfen ddisgrifio** sy'n disgrifio'r safle, yn dangos ei ffiniau ac yn nodi pam y cafodd ei ddynodi.[15] Yn ogystal, mae gan bob SoDdGA hefyd restr o **weithredoedd sy'n debygol o achosi niwed**. Mae **angen caniatâd** Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer pob gweithgaredd sy'n cael ei gynnwys yn y rhestr hon. Rhaid ceisio caniatâd perchennog / meddiannydd y safle cyn y gellir cynnal y gweithgaredd.

Mae'r fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan ddeddfwriaeth y DU yn **gwarchod safleoedd SoDdGA rhag difrod** gan weithredoedd sy'n debygol o achosi niwed.[16] O fewn y fframwaith hwn, mae'n ofynnol bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn diogelu SoDdGA o fewn eu cynlluniau datblygu ac yn ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch unrhyw geisiadau cynllunio a allai effeithio ar safle.

Mae'n ofynnol bod pob safle SoDdGA, gan gynnwys y rhai sy'n eiddo i dirfeddianwyr unigol, yn cael ei reoli'n effeithiol, fel arfer drwy gytundeb gwirfoddol rhwng perchennog y tir / tirfeddiannwr a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Gellir defnyddio dulliau mwy ffurfiol a chyfreithiol i orfodi rheolaeth gadarnhaol o safleoedd os bydd unrhyw safle yn dioddef o esgeulustod neu ddiffyg rheolaeth gadarnhaol.[17]

[13] Y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi'n SoDdGA o'u herwydd.
[14] Y marc distyll cymedrig yw uchder y llanw isel ar gyfartaledd ar bob dydd llanw, a gyfrifir dros gyfnod penodol o amser.
[15] NatureNet, ***Sites of special scientific interest*** [fel ar 23 Mawrth 2012].
[16] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Safloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig*** [fel ar 22 Mawrth 2012].
[17] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Gorfodaeth ar SoDdGA*** [fel ar 23 Mawrth 2012].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ar ddynodiadau cadwraeth natur, cysylltwch â **Nia Seaton** (nia.seaton@cymru.gov.uk) yn y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
- **Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur**
- **NatureNet**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol a'r Ganolfan Hyfforddi Doethurol Efelychu Systemau Cymhleth ym Mhrifysgol Southampton am gymorth ariannol a ddarparwyd i Angela Watkins, a oedd wedi galluogi llunio'r papur hwn.

**Ymholiad rhif: 12/0876**
**Angela Watkins**